## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 1 Ebrill 2019 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Alan James, Rhys Thomas a Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon at bawb ymlaen llaw ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

### 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawiad hwn.*

*Derbyniwyd gwybodaeth a all fod yn niweidiol i'r Ymgeisydd pe bai'r cais yn cael ei drafod yn gyhoeddus. Er budd gwrandawiad teg, bydd y cais yn cael ei drafod yn breifat. Ni fyddai er budd y cyhoedd i gynnal gwrandawiad cyhoeddus ac felly gwaherddir y wasg a'r cyhoedd.*

### 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED BERSONOL - YMGEISYDD RHIF 535038

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar -

(i) gais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 535038 am Drwydded Bersonol newydd yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodiad B yr adroddiad);

(ii) rhoi Trwydded Bersonol i unigolyn yn awdurdodi'r unigolyn hwnnw i gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, yn unol â thrwydded eiddo ac sydd mewn grym am nifer digyfyngiad o flynyddoedd oni bai ei bod yn cael ei hildio, ei diddymu, ei hatal neu ei fforffedu;

(iii) y gofynion ar gyfer Trwydded Bersonol ynghyd â manylion am y collfarnau heb ddarfod a gyhoeddwyd gan yr Ymgeisydd fel rhan o'r broses ymgeisio (Atodiad C yr adroddiad);

(iv) Heddlu Gogledd Cymru wedi mynegi gwrthwynebiadau i'r cais ar y sail y byddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio amcan atal troseddu Deddf Trwyddedu 2003 (Atodiad A i'r adroddiad);

(v) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyledus i ddeddfwriaeth berthnasol a'r Canllaw a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003; Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ynghyd â'r sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, ac

(vi) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cafwyd crynodeb o'r adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu ac amlinellodd ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol o blaid ei chais ynghyd â'i chysylltai.

Roedd yr Ymgeisydd wedi darparu tystlythyrau ysgrifenedig (a ddosbarthwyd cyn y gwrandawiad) a oedd yn dyst o'i chymeriad da ynghyd â thystiolaeth o'r ffaith ei bod wedi adsefydlu. Esboniodd yr Ymgeisydd ei hamgylchiadau personol, mynegodd edifeirwch dros y troseddau, ac ymhelaethodd ar sut iddi wneud y defnydd gorau o'i hamser, yn dilyn yr euogfarnau, i oresgyn ei gorffennol a chwblhau'r broses adsefydlu.

Achubodd yr Aelodau ar gyfle i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd. Mewn ymateb, eglurodd yr Ymgeisydd y rhesymeg y tu ôl i'w chais ac ymhelaethodd ar ei phrofiad a'i chyflogaeth yn y maes trwyddedu, a'i huchelgeisiau a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn hynny o beth. Ymhelaethodd ymhellach ar agweddau o'r broses adsefydlu.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Roedd y Cwnstabl Simon Keeting yn bresennol ar ran Heddlu Gogledd Cymru. Ar ôl adolygu'r cais, dywedodd bod hanes troseddol a throseddau perthnasol yr Ymgeisydd mor ddifrifol y byddai caniatáu trwydded yn tanseilio amcan trwyddedu atal trosedd ac anhrefn. Yn unol â hynny, nid oedd yr Heddlu yn ei ystyried yn addas i ganiatáu trwydded i'r Ymgeisydd.

Ar gais yr Is-Bwyllgor, darparodd y Cwnstabl Keeting wybodaeth bellach am y troseddau perthnasol ac fe gadarnhaodd nad oedd unrhyw drosedd wedi'i nodi ers hynny. Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgeisydd i ba raddau yr oedd yn rhan o'r troseddau hynny ac yn ei datganiad lliniarol darparodd fanylion am ei hamgylchiadau, cyn, yn ystod ac ar ôl cael ei barnu'n euog o drosedd.

[Darparodd y Swyddog Trwyddedu eglurder o ran y broses ymgeisio a'r gofynion trwyddedu ar gyfer Deiliad Trwydded Bersonol a chyfrifoldebau o ran hynny.]

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Siaradodd cysylltai'r Ymgeisydd o blaid yr Ymgeisydd, gan ddarparu gwybodaeth gefndirol bellach a datganiad lliniarol ar gyfer y collfarnau ynghyd â'r cyfnod adsefydlu wedi hynny. Tynnodd sylw hefyd at y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, a oedd yn caniatáu ar gyfer adsefydlu, yn cynnwys ar gyfer collfarnau heb ddarfod, a gofynnodd iddynt gymeradwyo'r cais yn yr achos hwn.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (10.45 a.m.) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *bod y cais am Drwydded Bersonol yn cael ei ganiatáu.*

Cyfleodd y Cyfreithiwr benderfyniad yr Is-bwyllgor i bawb yn y cyfarfod a rhoddodd y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus.

Er bod y troseddau yn rhai difrifol iawn na fyddent yn darfod, daeth yr Is-Bwyllgor i'r casgliad bod yr Ymgeisydd wedi treulio ei hamser yn ddoeth ers hynny ac wedi ymgymryd â chyfnod adsefydlu sylweddol ac yn wir wedi adsefydlu. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan y geirdaon a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd a oedd yn cadarnhau ei chymeriad a'i gwaith da, gan ei chysylltai a oedd yn bresennol yn y gwrandawiad i siarad o'i phlaid a chyflwyniadau uniongyrchol gan yr Ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad.

Fel rhan o'u hystyriaethau, bu i'r Is-Bwyllgor ystyried Deddf Trwyddedu 2003 a'r Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf. Nid oedd yr Is-Bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu Trwydded Bersonol i'r Ymgeisydd ar yr achlysur hwn yn tanseilio'r amcan trosedd ac anhrefn. Cyfeiriodd yr Aelodau yn benodol at Adran 4.24 o'r Canllawiau ac ystyriwyd bod y troseddau wedi'u cyflawni amser maith yn ôl ac erbyn hyn nid oedd gan yr Ymgeisydd y tuedd i droseddu.

O ganlyniad, bu i'r Is-Bwyllgor ganiatáu'r Drwydded Bersonol gan ddymuno'n dda i'r Ymgeisydd yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.